

“Rydyn ni’n Gwrando”

2014/15

Deall ac Ymateb i Ddinasyddion

Cynnwys		
1	Cyngor Gofal Pobl Ifanc - Datblygiad Llety â Chymorth	Haf 2013 - 2014
2	Adolygiad Hamdden - Cau Canolfan Hamdden Plas Madoc	Rhagfyr 2013 - Ionawr 2014
3	Adolygu Polisi Dyraniadau'r Cyngor	Ebrill 2014 – Gorffennaf 2014
4	Teithiau Staff ac Aelodau 2014 - 2017	Mehefin 2014 – Awst 2014
5	Dewis Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Ymgynghori	Mehefin 2014 – Gorffennaf 2014
6	Cyfleoedd Dydd ar gyfer Pobl Hŷn	Awst 2014
7	Penderfyniadau Anodd	Medi 2014 - Hydref 2014
8	Gweithredu Polisi Gosod Rhenti Newydd a Chyflwyno Taliadau Gwasanaeth	Tachwedd 2013 - Tachwedd 2014
9	Cludiant ôl-16	Ionawr 2015 - Chwefror 2015
10	Hyrwyddwyr Cymunedol	Ymgysylltiad Misol Parhaus
11	Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau	Ymgysylltiad Misol Parhaus
12	Llysgenhadon Ifanc	Ymgysylltiad Misol Parhaus
13	Perfformiad Atgyweirio a Gwelliannau i'r Gwasanaeth Atgyweirio	Ymgysylltiad Misol Parhaus

Enw'r ymgynghoriad:	Cyngor Gofal Pobl Ifanc – Datblygiad Llety â Chymorth
Dyddiad yr ymgynghoriad:	Yr ymgynghoriad cyntaf yn ystod haf 2013, gyda gwaith yn parhau drwodd i 2014

1. Beth oedd pwrpas yr ymarfer ymgynghori?

Mae'r Cyngor Gofal Pobl Ifanc, sydd wedi'i hen sefydlu, yn grŵp o bobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu sy'n gadael gofal, sy'n byw yn Wrecsam. Maent yn cyfarfod unwaith y mis i drafod materion sy'n effeithio plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal.

Bob 18 mis, mae'r Cyngor Gofal yn anfon holiadur i bob plentyn sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal i ganfod beth yw'r materion pwysicaf iddynt i'r Cyngor Gofal weithio arnynt i'r dyfodol.

Roedd yr holiadur yn ystod haf 2013 wedi canfod angen am lety priodol i rai sy'n gadael gofal. I fynd i'r afael â hyn, bu'r bobl ifanc yn gweithio tuag at ail-lansio llety â chymorth ar gyfer rhai sy'n gadael gofal yn Wrecsam.

Mae Gwasanaeth Llety â Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn darparu adnodd gwerthfawr sy'n cefnogi pobl ifanc i drosglwyddo o fod mewn gofal maeth neu gartrefi preswyl i fyw yn annibynnol, drwy eu cyfateb â rhywun sy'n gallu darparu ystafell iddynt yn eu cartref. Mae hwn yn gyfnod pryd y gall darparwyr llety â chymorth basio ymlaen y sgiliau sydd ganddynt eisoes y mae eu hangen ar bobl ifanc i allu byw yn llwyddiannus ar eu pennau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys pethau fel cyllidebu, golchi, glanhau, addurno, talu biliau, bod yn gymydog da ac atimae'r rhestr yn ddiwedd.

2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?

Holiadur i bob plentyn sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn Wrecsam , gyda deg mater iddynt eu hystyried o ran eu blaenoriaethau.

3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

Cyflwynwyd hyn i ddechrau i'r Panel Rhianta Corfforaethol fel awgrym. Ymgynghorwyd â'r Cydlynedd Ehangu Mynediad o Brifysgol Glyndŵr i ganfod y modd gorau o hysbysebu yn y brifysgol i dargedu gweithwyr cymdeithasol myfyrwyr. Rhoddwyd stondin am ddim i'r bobl ifanc yn ffair y glas Glyndŵr a rhannwyd gwybodaeth am lety â chymorth. Roedd y bobl ifanc yn meddwl y gall fod yn syniad da cael stondinau mewn archfarchnadoedd lleol fel y gallent ymgynghori â gweithwyr ieuencid i ganfod i ba raddau yr oeddynt wedi llwyddo â hyn yn y gorffennol. Ymgynghorwyd â gweithwyr reprograffeg ynghylch dyluniad y deunyddiau cyhoeddusrwydd a'r pecynnau gwybodaeth.

Yn ogystal, bu'r bobl ifanc yn gweithio ag aelodau'r Timau Rhianta Corfforaethol o fewn yr adran Atal a Gofal Cymdeithasol i yrru eu syniadau yn eu blaenau ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Buont yn ymgynghori â'r tîm ynghylch lle cawsant lwyddiant o ran rhoi cyhoeddusrwydd yn ystod y

bythefnos gofal maeth flynyddol. Cafodd y taflenni eu hailysgrifennu ar y cyd â staff y tîm gadael gofal.

4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Cafodd y bobl ifanc y gellid rhoi posteri yn y Ganolfan Gyswllt a bod templedi y gellid eu haddasu i ddiweddarau'r deunydd darllen.

5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Bu'r bobl ifanc yn gweithio ag aelodau o'r Timau Rhianta Corfforaethol o fewn yr adran Atal a Gofal Cymdeithasol i yrru eu syniadau yn eu blaenau ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys dylunio logo newydd ar gyfer y gwasanaeth; adolygu'r deunydd cyhoeddusrwydd. Teimlwyd nad oedd yr hen logo yn cyfleu'r neges mai nod y gwasanaeth oedd cefnogi pobl ifanc i symud tuag at fod yn annibynnol. Arweiniodd y newid a'r cynnydd mewn cyhoeddusrwydd i gynnydd mewn diddordeb yn y gwasanaeth gan ddarparwyr posibl. Cafwyd mwy o ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hefyd, ymhlith pobl ifanc a all ddefnyddio hwn fel opsiwn wrth adael gofal.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Hysbysebu'r gwasanaeth yn Cyswllt Wrexham a chael stondin wybodaeth ym Morrison's yn Wrecsam. Roedd gan y Cyngor Gofal stondin hefyd yn Ffair y Glas Prifysgol Glyndŵr ac roedd erthygl am yr ail-lansiad ar wefan Wrexham.com

7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Mae'r datblygiad hwn yn y gwasanaeth wedi golygu bod mwy o opsiynau ar gyfer bobl ifanc sy'n gadael gofal yn y dyfodol, ynghyd â gwell gwybodaeth i ddarparwyr posibl llety â chymorth. Yn ogystal, mae'r berthynas barhaus rhwng y Cyngor Gofal Pobl Ifanc a'r Panel Rhianta Corfforaethol yn golygu bod y panel, sydd wedi bod yn gwbl gefnogol i'r bobl ifanc gynnal y gwaith hwn, wedi cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

Enw'r ymgynghoriad:

Adolygiad Hamdden – Cau Canolfan Hamdden Plas Madoc

Dyddiad yr ymgynghoriad:

Rhagfyr 2013 – Ionawr 2014

1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymgynghori â defnyddwyr y

cyfleusterau a rhanddeiliaid ynghylch y bwriad i gau Canolfan Hamdden a Gweithgareddau Plas Madoc.

Cafodd y cyfleuster ei gau yn Ebrill 2014 a'i roi o'r neilltu i ganiatáu i ymddiriedolaeth gyflawni trosglwyddiad.

2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?

- Bu ymgynghorwyr allanol y 'Sports Consultancy' yn ymgynghori â sefydliadau allanol.
- Cynhaliwyd arolwg ar-lein, ynghyd ag arolwg ar bapur.

3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

- Ysgolion (5 safle ag iddynt ddau ddefnydd)
- Rhanddeiliaid (dros 60 o sefydliadau)
- Y Cyhoedd (2,075 o ymatebwyr)
- 140 o negeseuon e-bost a llythyrau
- Grwpiau Diddordeb Arbennig e.e y Gynghrair Niwrolegol
- Grŵp cydraddoldeb ar gyfer ail-lunio gwasanaethau

4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Roedd mwyafrif helaeth y sylwadau a dderbyniwyd am yr adolygiad yn canolbwyntio ar y bwriad i gau Canolfan Hamdden Plas Madoc. Roedd y sylwadau'n adlewyrchu gwrthwynebiad llwyr i'r cynnig.

Cafwyd cryn nifer o sylwadau a oedd yn gweld cyfleusterau hamdden fel modd o wella iechyd a mynd i'r afael â gordewdra. Yn ogystal, ystyrir Plas Madoc fel canolbwynt i'r gymuned leol, yn enwedig yr ardal Cymunedau yn Gyntaf.

5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Yn dilyn ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu yn Rhagfyr 2013, roedd yr adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys argymhelliad y dylai swyddogion geisio mynegiadau o ddiddordeb gan y gymuned i gymryd drosodd Canolfan Hamdden Plas Madoc fel menter gymdeithasol/gydfuddiannol, ond heb unrhyw gost bellach i'r Cyngor.

Ym Medi 2014, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol amodau prydles ynghyd â chymorth ariannol pellach ar gyfer Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash Magic (taliad untro o 50k). Cytunwyd y brydles ar 28 Tachwedd 2014 a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2014.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Cynhwyswyd adborth yn adroddiad(au) y Bwrdd Gweithredol a rhoddwyd sylw helaeth i'r penderfyniad a'r ymatebion yn y cyfryngau lleol.

Cyhoeddwyd adborth ar wefan CBSW ac o fewn y wasg leol.

7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Cam tra defnyddiol oedd ymgymryd ag ymarfer i gasglu gwybodaeth i gael amcan o farn y cyhoedd ynghylch cau'r ganolfan hamdden. Roedd y dystiolaeth hon a gasglwyd, ynghyd â'r grŵp gwrthwynebu a ffurfiwyd, yn darparu'r bobl allweddol i fynd ymlaen yn y diwedd i ddod yn aelodau bwrdd ac yn gefnogwyr i Ymddiriedolaeth Gymunedol Splash Magic, gan alluogi'r Ganolfan Hamdden i ailagor.

Enw'r ymgynghoriad:

Adolygu Polisi Dyraniadau'r Cyngor

Dyddiad yr ymgynghoriad:

Ebrill i 18 Gorffennaf 2014

1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?

Mae 'Polisi Dyraniadau'r' Cyngor yn nodi'r broses ar gyfer dyrannu tai Cyngor i bobl. Roedd y Gwasanaethau Tai yn dymuno ymgynghori ag ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Tai ynghylch newidiadau arfaethedig i Bolisi Dyraniadau'r Cyngor.

Roedd Polisi Dyraniadau Presennol y Cyngor yn seiliedig ar bwyntiau a dyfarnwyd pwyntiau ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Dyrannwyd tai i'r ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bwyntiau. Tra bo'r system hon yn mynd i'r afael ag anghenion o ran tai, nid oedd yn ystyried faint o amser y bu'r ymgeisydd yn aros. Yn ogystal, nid oedd y Polisi'n cyfyngu nifer y cynigion o lety y gall yr ymgeisydd eu gwrthod, waeth pa mor addas ydynt.

Roedd diwygio'r Polisi Dyraniadau'n gyfle i fynd i'r afael â'r materion hyn, wrth sicrhau bod gennym Bolisi sy'n cydymffurfio â chanllawiau sydd newydd gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Cynigiwyd y dylid cyflwyno system yn lle'r Polisi presennol, a fyddai'n cael ei weld i fod yn gliriach ac yn decach. Cynigiwyd y dylid cyflwyno system fandiio.

2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 3 mis, a ddaeth i ben ar 18 Gorffennaf 2014. Anfonwyd crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r polisi at bob ymgeisydd oedd wedi'u cofrestru ar gyfer tai, a gofynnwyd am sylwadau. Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd â'r Cymdeithasau Tai sy'n gweithredu o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ynghyd ag ACau ac ASau lleol a rhanddeiliaid lleol perthnasol eraill, e.e. Shelter Cymru a Chymorth i Ferched Cymru. Yn ogystal, roedd gwybodaeth ar gael ar Dudalennau Ymgynghori gwefan y Cyngor.

Cynhaliwyd Gweithdy Aelodau hefyd i gael barnau Aelodau ar gyfer mynd ymlaen ag adolygu'r Polisi.

3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

- (tua) 2,300 o ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru ar gofrestr tai'r Cyngor
- Cymdeithasau Tai
- ACau ac ASau lleol
- Rhanddeiliaid eraill h.y. Shelter Cymru a Chymorth i Ferched Cymru
- Gweithdy i'r holl Aelodau
- Yn ogystal, yn ystod y broses o ddatblygu polisi, cynhaliwyd gweithdai â staff a Grŵp Gwella'r Gwasanaeth Dyraniadau.

4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Yn gyffredinol, roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan ymgeiswyr yn gadarnhaol. Roedd yr ymatebwyr o blaid y Cyngor yn ystyried pa mor hir y bu ymgeisydd yn disgwyl am gael ei ailgartrefu. Derbyniwyd ymatebion manylach hefyd gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn a Tai Pawb.

5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Ar ôl ystyried yr ymatebion, gwnaed rhai diwygiadau i'r polisi, sef cynnwys categori ychwanegol o angen o ran tai ym Mand 2, ar gyfer yr ymgeiswyr hynny nad yw eu llety'n fforddiadwy. Mae'r diffiniad o le mae rhywun yn preswyl fel arfer wedi'i gywiro i gyd-fynd â Chod Canllawiau Llywodraeth Cymru a chynhwyswyd paragraff eglurhaol yn adran 1.2 o'r polisi, mewn perthynas â monitro cydraddoldeb.

Cymeradwyodd Aelodau'r Bwrdd Gweithredol Bolisi Dyraniadau Tai newydd y Cyngor ar 21 Hydref 2014 i ddo i rym yn Ionawr 2015. Cynhelir adolygiad o'r polisi ar ôl 12 mis.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Cynhwyswyd adborth yn adroddiad y Bwrdd Gweithredol. Yn Trafodion Tai (cylchlythyr tenantiaid) Rhagfyr 2014, cafwyd erthygl ar newid y modd y mae'r Cyngor yn dyrannu eiddo.

Ceir manylion llawn o ran adborth o'r ymgynghoriad ac ymateb y Cyngor ar dudalennau ymgynghori gwefan y Cyngor.

7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Bu cynnal yr ymgynghoriad yn gam defnyddiol ac roedd diwygio Polisi Dyraniadau'r Cyngor yn golygu ei fod yn cyd-fynd â datblygiadau diweddar mewn cyfraith achosion, ynghyd â newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Diwygio Budd-daliadau Lles.

Roedd diwygio'r polisi yn gyfle i symleiddio'r system bresennol a ddefnyddiwyd i ddyrannu cartrefi Cyngor, wrth gyflawni'r nodau a ganlyn:-

- Diwallu anghenion tai mewn modd tryloyw, teg, cyson a chyfreithlon.
- Blaenoriaethu'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf o ran tai.

- Rhoi ffafriaeth resymol i bob ymgeisydd mewn categorïau statudol.
- Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Mynd i'r afael â'r materion sy'n codi o gyfraith achosion, newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth Budd-daliadau Lles.

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/housing/allocations_policy_consultation_feedback.pdf

Enw'r ymgynghoriad:	Cynllun Teithio Staff ac Aelodau 2014 - 2017
Dyddiad yr ymgynghoriad:	Haf 2014
1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?	
<p>Cynhaliwyd arolwg staff cynhwysfawr yn haf 2014 i ddiweddarau arolygon gwaelodlin blaenorol, gan roi'r cyfle i staff ac Aelodau drafod sut y maent yn mynd o gwmpas, ac i helpu i ganfod mentrau y gellid eu datblygu i yrru ymlaen newid ymddygiadol hirdymor o ran y teithiau a wneir gan bobl at ddibenion gwaith, ynghyd â'r dulliau cludiant a ddewisir ganddynt.</p>	
2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?	
<p>Cynhaliwyd yr arolwg teithio o ran staff fel arolwg ar-lein ac fe'i hyrwyddwyd i staff ac Aelodau. Yn ogystal, danfonwyd copiau caled i weithwyr nad oeddynt ar e-bost.</p>	
3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)	
<p>Roedd yr arolwg staff yn casglu barnau gan yr holl staff ac Aelodau ar draws CBSW. Nid oedd arolwg 2014 yn cynnwys staff CBSW yn ysgolion yr Adran Addysg oherwydd ein bod yn bwriadu dilyn hyn ag arolwg pwrpasol ar gyfer staff ysgolion ac yn defnyddio cwestiynau gwahanol.</p> <p>Derbyniwyd ymatebion gan dros 900 o staff ac Aelodau.</p>	
4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?	
<p>Cafodd staff ac Aelodau'r cyfle i drafod sut y maent yn mynd o gwmpas, ac i helpu i ganfod mentrau y gellid eu datblygu i yrru newid ymddygiadol hirdymor yn ei flaen.</p>	
5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)	
<p>Rydym wedi gweithredu ar y dystiolaeth a gasglwyd o arolwg teithio'r staff a'r Aelodau i ddatblygu Cynllun Teithio Staff ac Aelodau 2014-2017. Cymeradwywyd</p>	

hyn gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor yn Chwefror 2015.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Mae tîm prosiect mewnol yn gyfrifol am gyflenwi'r cynllun gweithredu ac adrodd ynghylch cynnydd i'r UDRh yn fisol.

Cesglir yr offerynnau a'r adnoddau teithio mewn un lle ar SAM.

7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Mae'r arolwg teithio ar gyfer staff wedi darparu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer datblygu ein cerrig milltir i'r dyfodol. Bydd yr arolwg llawn yn cael ei ddiweddarau bob tair blynedd i fonitro cynnydd, ynghyd ag arolygon llai yn amlach a fydd naill ai'n targedu poblogaeth benodol (fel athrawon) neu'n ceisio adborth ar fenter benodol (fel Liftshare).

Enw'r ymgynghoriad:

Ymgynghoriad dewis Safle Sipsiwn a Theithwyr

Dyddiad yr ymgynghoriad:

Mehefin a Gorffennaf 2014

1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?

Cwblhawyd 'Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr' (GTNA) ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam ddiwedd 2013, ynghyd ag asesiad o addasrwydd y ddarpariaeth o ran safle presennol y Cyngor ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Ffordd Rhuthun, er mwyn llywio Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae Bil Tai (Cymru) Tachwedd 2013 yn cynnig cyflwyno dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr (SaTh), lle nodwyd bod angen. Disgwylir i hyn ddod yn gyfraith yn Ebrill 2015.

Er mwyn darparu ar gyfer yr angen am leiniau parhaol am rent cymdeithasol a nodwyd o fewn yr asesiad, mae'r Cyngor eisiau canfod tir addas ar gyfer safle newydd i Sipsiwn a Theithwyr a berchenogir gan y Cyngor, ynghyd â safle aros dros dro (ar gyfer y bobl hynny sy'n ymweld â'r ardal neu'n teithio trwyddi). Ar ôl canfod tir priodol, bydd y Cyngor wedyn yn dechrau'r broses o geisio caniatâd cynllunio, ynghyd â chanfod pa gyllid sydd ar gael gan gynnwys ymgeisio am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r camau cyntaf yn y broses o ganfod safle, ac fel yr argymhellir o fewn y GTNA, mae Swyddogion y Cyngor wedi ymgymryd â phroses ymgynghori ag aelodau lleol o'r gymuned SaTh i geisio eu barnau ar feini prawf dewis er mwyn llywio'r broses o ddewis safle. Arweiniwyd y broses gan y Gwasanaeth Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau o fewn y Cyngor ac fe gafodd ei hwyluso a'i gefnogi gan Fforwm Amlasiantaethol Sipsiwn a Theithwyr Wreccsam (MAF).

Roedd yr ymgynghoriad yn mynd i'r afael â 4 thema, sef:

- Dyluniad y Safle
- Cyfleusterau'r Safle
- Rheoli'r Safle, Cynnal a Chadw a Diogelwch
- Man Aros Dros Dro

2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?

Datblygwyd detholiad o weithgareddau rhyngweithiol i gasglu barnau pobl. Dyluniwyd y dulliau a ddefnyddiwyd i ystyried amryw grwpiau oedran, ac amryw lefelau llythrennedd. Fe'u dyluniwyd hefyd i'w defnyddio gyda grwpiau neu unigolion.

3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys barnau cyfanswm o 32 o aelodau o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol. Roedd oedran y cyfranogwyr yn amrywio o 13 i 75+.

4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Arweiniodd canfyddiadau'r ymgynghoriad at nifer o argymhellion gan y gymuned SaTh. Dylid nodi y lluniwyd yr argymhellion hyn i'w hystyried ochr yn ochr â meini prawf eraill ar gyfer dewis, fel rheoliadau cynllunio ac ati.

Argymhellion enghreifftiol:

- Ystyried lleoli'r safleoedd newydd o fewn pellter rhesymol o wasanaethau meddygol. Nid yw hyn o reidrwydd yn gorfod golygu bod y gwasanaethau hyn ar 'stepen y drws', ond eu bod yn ddigon agos fel nad yw amser teithio yn afresymol.
- Sicrhau y lleolir y safleoedd newydd arfaethedig yn briodol i ganiatáu mynediad rhwydd i gludiant cyhoeddus a llwybrau cerdded diogel. Gall hyn olygu lleoli safle bws wrth y fynedfa i'r safle, neu fod un ar gael ychydig bellter i ffwrdd. Lle bydd angen cerdded i safle bws, dylai CBSW sicrhau bod llwybrau diogel a phriodol rhwng y safle bws a'r safle.
- Canfod lleoliadau ar gyfer safleoedd a fydd yn caniatáu dylunio'r safle yn ôl cynllun 'canghennau coeden'.
- Canfod lleoliadau ar gyfer safleoedd a fydd yn caniatáu lonydd a mynedfa o faint priodol (e.e. yn ddigon llydan i 2 gerbyd basio ei gilydd yn ddiogel).
- Canfod lleoliadau ar gyfer safleoedd a fydd yn caniatáu i'r safleoedd newydd gael 2 bwynt mynediad ar wahân (mynedfa ac allanfa).

5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth ? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd i gyfrannu at ddatblygu rhestr fer o leoliadau posibl ar gyfer safle parhaol newydd, ynghyd â man aros (ar gyfer rhai sy'n ymweld â'r ardal dros dro). Bellach, bydd rhaid i'r rhestr fer fynd drwy'r prosesau cynllunio a gwleidyddol cyn y gwneir penderfyniadau terfynol.

6. Sut wnaethoch chi adrodd ynghylch y canfyddiadau a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Rhoddwyd adborth i aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr drwy gael gweithwyr proffesiynol yn gweithio â hwy, y mae pob un ohonynt yn aelodau o'r Fforwm Amlasiantaethol (MAF).

7. Sylwadau Gwerthuso (gennych chi a chyfranogwyr)

Roedd ymgysylltu â holl aelodau'r gymuned sipsiwn a theithwyr yn her, ond cynorthwywyd hyn drwy ddefnyddio cysylltiadau presennol o fewn y Cyngor (e.e. drwy swyddogion addysg, y tîm Cymunedau yn Gyntaf ac aelodau eraill o'r Fforwm Amlasiantaethol).

Enw'r ymgynghoriad:	Cyfleoedd Gofal Dydd i Bobl Hŷn
Dyddiad yr ymgynghoriad:	27^{ain} Awst 2014
8. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?	
<p>Mae adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Wrecsam wedi treulio llawer iawn o amser dros y 3-5 mlynedd diwethaf yn cael sgysiau â phobl hŷn yn Wrecsam, gan gynnwys y rheiny sy'n cael gofal a chymorth gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion a'u gofalwyr. Mae GCO wedi siarad â Gweithwyr Cymdeithasol yn ogystal â darparwyr gwasanaethau o fewn y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol er mwyn mynd ati mewn modd beirniadol i adolygu'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau gofal dydd i bobl hŷn, yn ogystal â'n helpu i lunio sut rydym yn credu bod angen darparu cyfleoedd gofal dydd yn y dyfodol.</p> <p>Cyn ystyried unrhyw newidiadau o ran y math o gyfleoedd gofal dydd y byddai gennym mewn golwg, roeddem eisiau ailddechrau'r drafodaeth honno, er mwyn sicrhau bod yr hyn a glywsom gan yr holl randdeiliaid yn gywir. Roeddem eisiau siarad unwaith eto â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr, Gweithwyr Cymdeithasol yn ogystal â darparwyr gwasanaethau i bobl hŷn o oddi mewn i'r Sector Annibynnol a'r Trydydd Sector er mwyn mireinio ein hymagwedd a sicrhau ein bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw bryderon fu gan bobl cyn i ni gytuno ar ein gweledigaeth a'i gweithredu.</p>	
9. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?	
<ul style="list-style-type: none">• Ymweliadau ar safleoedd i siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau• Trafodaethau â staff• Grŵp trafod â chynrychiolwyr o fewn y 3^{ydd} sector• Dau sesiwn grŵp ffocws â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a darparwyr gwasanaeth. Prif flaenoriaeth y grwpiau ffocws oedd nodi syniadau o ran datblygu gweithgareddau gofal dydd yn y gymuned leol (yn ôl wardiau),	

ynghyd â manyleb ar gyfer canolfan ddydd ar gyfer pontio'r cenedlaethau a nodi barnau pobl ynghylch gofal seibiant yn y dyfodol.

10. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

- Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal dydd
- Sefydliadau 3^{ydd} Sector
- Gofalwyr
- Staff sy'n gweithio o fewn gwasanaethau gofal dydd yn fewnol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Mynychodd mwy na 70 o bobl sesiynau grŵp ffocws

11. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

- Cafwyd rhai awgrymiadau o ran bod angen i ni wneud mwy i ymgysylltu ag eraill o fewn y gymuned
- Bydd asiantiaid cymunedol yn helpu i rannu gwybodaeth
- Dywedodd rhai pobl wrthym y byddent yn cael anawsterau o ran cludiant i wasanaethau sy'n seiliedig mewn adeiladau penodol
- Byddai pobl hŷn yn hoffi cael ymgysylltu mwy â chymunedau a chenedlaethau eraill
- Dylid rhoi cyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu ag amryw weithgareddau

12. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Mewn egwyddor, cytunwyd i symud ymlaen â'r adolygiad o wasanaethau Gofal Dydd, sydd yn ei gyfnod cynnar iawn, ac mae'n rhy fuan i wneud sylwadau arno. Roedd y wybodaeth a goladwyd wedi galluogi'r adran i edrych ar weithredu mwy o adnoddau yn y gymuned h.y. Asiantiaid Cymunedol a Rhannu Bywydau.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Cynhwyswyd adborth yn adroddiad y Bwrdd Gweithredol a drafodwyd â'r Pennaeth Gwasanaeth – mae'r gwaith hwn yn dal i fod yn ei gyfnod cynnar iawn ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud.

7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Cam defnyddiol iawn oedd ymgymryd ag ymarfer i gasglu gwybodaeth er mwyn cael amcan o farn y cyhoedd ar newidiadau posibl, cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol y byddai ei angen ar gyfer unrhyw newid sylweddol i ddarpariaeth gwasanaethau gofal dydd.

Roedd wedi galluogi Gofal Cymdeithasol i Oedolion i weithredu gwasanaethau yr amlygwyd eu bod yn werthfawr i'r rheiny a oedd eisiau derbyn mwy o gymorth o fewn eu cymuned leol h.y. Asiantiaid Cymunedol.

Enw'r ymgynghoriad:	Penderfyniadau Anodd
Dyddiad yr ymgynghoriad:	15^{fed} Medi 2014 tan 24^{ain} Hydref 2014
<p>1. Beth oedd prwpas eich ymarfer ymgynghori?</p> <p>Ym Medi a Hydref 2014, gofynnodd Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i bobl Wrecsam gymryd rhan yn yr ymgynghoriad 'Penderfyniadau Anodd', er mwyn llywio'r penderfyniadau yr oedd arnom angen eu gwneud i arbed mwy na £11 miliwn o'n cyllideb ar gyfer 2015-16.</p>	
<p>2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?</p> <p>Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg a 2 ddigwyddiad ymgynghori.</p>	
<p>3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)</p> <p>Roedd cyfanswm o dros fil o bobl wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Mynychwyd y digwyddiad gan Gynghorwyr Tref a Chymuned, y Fforwm Tenantiaid, Fforwm Dros 50 Wrecsam, grŵp yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb (y fforwm amrywiaeth), aelodau Panel Dinasyddion Wrecsam, a chynrychiolwyr o Senedd yr Ifanc.</p>	
<p>4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?</p> <p>Dywedodd pobl wrthym i ba raddau yr oeddynt yn cytuno (neu'n anghytuno) â'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion a chynhyrchu incwm. Gofynnwyd i bobl hefyd a oedd ganddynt unrhyw sylwadau mewn perthynas â phob un o'r cynigion. Yn olaf, gofynnwyd i bobl a oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau eraill o ran sut y gallai'r Cyngor wneud yr arbedion a fynnir yng nghyllideb 2015/16.</p>	
<p>5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)</p> <p>Roedd yn glir o ganlyniadau cyntaf yr arolwg bod llawer o bobl yn teimlo'n gryf na ddylem godi am barcio mewn Parciau Gwledig, neu leihau'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio ar gyfer ein ffordd a phriffyrdd. Rydym yn gwrandao ar beth rydych wedi'i ddweud wrthym, ac fe ddilewyd y rhain ar unwaith o'r arbedion oedd wedi'u nodi ar gyfer 2015/16.</p>	
<p>13. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?</p> <p>Cyhoeddwyd adborth mewn 3 cham:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gair o ddiolch a ffigurau o ran niferoedd yr ymatebion ac ati. 2. Adroddiad llawn ar y canfyddiadau. 3. Adroddiad 'Fe Ddywedoch Chi Hyn, Fe Wnaethom Ni Hyn'. <p>Cyhoeddwyd yr adroddiadau ar-lein, a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddynt</p>	

drwy gylchlythyrau, y cyfryngau cymdeithasol ac ati. Yn ogystal, gosodwyd posteri oedd yn nodi'r prif ganfyddiadau yn adeiladau allweddol y cyngor (e.e. Llyfrgell Wreccsam).

Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r nos â phobl a wahoddwyd o'r grwpiau hynny a wahoddwyd i fynychu'r digwyddiadau ymgynghori. Yn y sesiwn hwn, gofynnwyd i Benaethiaid Adrannau roi adborth i gyfranogwyr ynghylch cynnydd yn erbyn cynigion a gynhwyswyd yn yr ymgynghoriad cychwynol, ynghyd â sut y mae canfyddiadau'r ymgynghoriad wedi dylanwadu ar y gwaith sy'n cael ei weithredu.

14. Sylwadau Gwerthuso (gennych chi a chyfranogwyr)

Hwn oedd yr ymateb mwyaf a dderbyniwyd gan CBSW mewn perthynas ag ymgynghoriad ar y gyllideb.

Cafodd egwyddor y digwyddiadau ei dderbyn yn gadarnhaol iawn – yn fwy na thebyg gydag un neu ddau o newidiadau bach i'r cynnwys cyn cynnal y digwyddiadau hyn eto yn y dyfodol.

Cynhyrchwyd adroddiad llawn 'Fe ddywedoch chi hyn, fe wnaethom ni hyn' i ddangos beth oedd wedi digwydd i bob un o'r cynigion o ganlyniad i'r broses ymgynghori. Gellir cael yr adroddiad hwn yma: Saesneg -

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/budget/difficult_decisions_you_said_we_did.pdf Cymraeg -

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/consultations/budget/difficult_decisions_you_said_we_did_w.pdf

Enw'r ymgynghoriad:	Gweithredu Polisi Pennu Rhent Newydd a Chyflwyno Taliadau Gwasanaeth
Dyddiad yr ymgynghoriadau:	Gweithredu'r Polisi Rhent Newydd – Tachwedd
1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?	
Hysbysu tenantiaid a cheisio sylwadau ganddynt ar weithredu polisi pennu rhent newydd o Ebrill 2015 a chyflwyno taliadau gwasanaeth i'r tenantiaid hynny sy'n derbyn gwasanaethau ychwanegol o Ebrill 2016.	
2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?	
Fel rhan o'r arolwg tenantiaid a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2013, gofynnodd yr adran gwestiwn ynghylch egwyddorion polisi rhent newydd. Cyflwynwyd adroddiad ar y canfyddiadau i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam, y Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Gweithredol. Yn ogystal, anfonwyd gwybodaeth am bolisi rhent newydd i bob tenant gyda'u Datganiadau Rhent chwarterol. Cyflwynwyd adroddiad i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam ar 6 Mehefin 2014 yn ceisio barnau Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam	

ar egwyddorion o ran datgronni taliadau gwasanaeth a'u cyflwyno fesul cam. Yn Hydref 2014, derbyniodd pob un o 11,307 tenant y Cyngor wybodaeth gyda'u datganiad rhent chwarterol ynghylch pam bod rhaid i'r Cyngor newid y modd y mae'n dadansoddi taliadau rhent. Cafodd tenantiaid y cyfle i roi eu barnau ar egwyddorion o ran gwahanu taliadau gwasanaeth a'r modd gorau o weithredu'r newidiadau hyn.

3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

- Gwahoddwyd 11,307 o denantiaid i roi eu barnau ar y polisi rhent newydd a chyflwyno taliadau gwasanaeth
- Cwblhawyd 1,249 o arolygon tenantiaid
- Derbyniwyd 30 o ymatebion yn rhoi sylwadau ynghylch y polisi rhent
- Roedd (tua) 200 o lesddeiliaid ar gyfer taliadau gwasanaeth
- Gweithdy ar gyfer yr holl Aelodau
- Cyflwyniad ac adroddiadau i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam, y Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Gweithredol

4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Roedd y mwyafrif o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno â'r cynigion ar gyfer polisi rhent newydd.

Roedd sylwadau penodol a dderbyniwyd yn cynnwys y ffaith y bydd tenantiaid mewn tai gwarchod yn cael mwy o ergyd ariannol nag eraill oherwydd bod ganddynt fynediad i fwy o wasanaethau. Cafwyd peth pryder hefyd y bydd yn costio mwy i denantiaid ar ben eu rhent, nad yw'n broblem i'r rheiny sy'n cael Budd-dal Tai, ond roedd pryderon am denantiaid hŷn nad ydynt yn derbyn budd-dal tai ac ar gyfer y tenantiaid hynny sy'n gorfod talu am wasanaethau. Mae angen i'r Cyngor sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o safon.

5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad)

O ran y polisi rhent newydd, adroddwyd ynghylch yr ymgynghoriad i'r Bwrdd Gweithredol oedd wedi cytuno yn Nhachwedd 2014 i ailstrwythuro a gweithredu polisi rhent newydd o Ebrill 2015.

Bydd gwybodaeth am gynigion ar gyfer gweithredu taliadau gwasanaeth o Ebrill 2016 yn cael ei adrodd i Aelodau mewn Gweithdy Aelodau i sicrhau bod barnau tenantiaid yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau i'r dyfodol.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Adroddwyd i denantiaid ynghylch canlyniadau'r arolwg tenantiaid, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar y polisi rhent newydd, yn rhifyn Rhagfyr 2014 o Trafodion Tai.

Cynhwysir adborth ar daliadau gwasanaeth mewn adroddiad i Aelodau yn y

dyfodol, wrth ystyried cynigion i'w gweithredu. Cynhelir ymgynghoriad pellach â thenantiaid, ac yn enwedig y tenantiaid hynny a effeithir gan gyflwyno taliadau gwasanaeth dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn ffurf:

- Erthygl yn rhifyn Gorffennaf 2015 o Trafodion Tai
- Llythyrau unigol i denantiaid a effeithir
- Sesiynau galw heibio yn y gymuned leol a chyfarfodydd â thenantiaid sy'n byw mewn cynlluniau tai gwarchod.

7. Sylwadau Gwerthuso (gennych chi a chyfranogwyr)

Bydd adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei ystyried a bydd o gymorth i Swyddogion benderfynu'r modd gorau o leihau'r effaith ariannol ar denantiaid wrth weithredu taliadau gwasanaeth.

[Pwyllgor Craffu ar Gartrefi, yr Amgylchedd a Chymunedau 12 Mawrth 2014](#)

[Bwrdd Gweithredol 11 Tachwedd 2014](#)

www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/housing/newsletter/newsletter_winter14.pdf

Enw'r ymgynghoriad:	Cludiant Ôl-16
Dyddiad yr ymgynghoriad:	Ionawr 2015 – Chwefror 2015
1. Beth oedd prwpas eich ymarfer ymgynghori?	
Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi adolygu ei bolisi mewn perthynas â Chludiant Ôl-16. Roedd y Cyngor wedi canfod pedwar opsiwn posibl i'w harchwilio a gofynnodd am sylwadau ar bob opsiwn.	
2 Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?	
<ul style="list-style-type: none">• Cyfarfodydd unigol ag ysgolion a cholegau a effeithir• Arolwg ar-lein a oedd ar gael o 6 Ionawr i 13 Chwefror 2015• Gweithdy ymgynghori â phobl ifanc• Gweithdy ymgynghori â rhanddeiliaid mewn ysgolion lleol, addysg a• Gwasanaethau gyrfaedd	
3 Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)	
<ul style="list-style-type: none">• 103 o ymatebion ar-lein (myfyrwyr yn bennaf a rhieni myfyrwyr Ôl-16 a'r rheiny a all fod yn mynd i mewn i addysg Ôl-16 yn y dyfodol agos)• Cyfarfodydd â Choleg Cambria a'r ysgolion a chanddynt chweched dosbarth o fewn eu hysgolion• Tua 25 o rhanddeiliaid yn y gweithdy rhanddeiliaid• Tua 30 o bobl ifanc yn y gweithdy i bobl ifanc• Tua 20 o ymatebion ysgrifenedig neu negeseuon e-bost	

4 Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Roedd llawer o ymatebwyr, yn enwedig yn yr arolwg, yn gwrthwynebu i unrhyw newidiadau. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn ffafrio'r opsiwn a oedd yn cynnwys cludo myfyrwyr i sefydliadau yn Wrecsam yn unig. Fodd bynnag, cafwyd cryn wrthwynebiad i hyn gan gynrychiolwyr ysgolion ffydd oedd yn teimlo y dylid gwneud eithriadau i gludo myfyrwyr i chweched dosbarth mewn ysgolion ffydd (fel Ysgol Uwchradd Gatholig Caer) y tu allan i'r ardal.

5 Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Ystyriwyd canlyniadau'r ymgynghoriad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac argymhellwyd y dylid mabwysiadu'r opsiwn i dynnu pob cefnogaeth yn ôl ar gyfer cludiant Ôl-16. Cymeradwywyd hyn gan y Bwrdd Gweithredol yn Ebrill 2015 a bydd y newid mewn polisi yn dod i rym ym Medi 2016. Er bod yr ymgynghoreion yn ffafrio'r opsiwn i gadw cludiant ar gyfer sefydliadau yn Wrecsam yn unig, roedd y gwrthwynebiad cryf i hyn ymhlith cynrychiolwyr ysgolion ffydd yn ffactor mawr yn y penderfyniad i fabwysiadu polisi o dynnu cefnogaeth yn ôl yn gyfan gwbl, gan y teimlwyd nad oedd hyn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gan y byddai'n trin bob myfyriwr yn yr un modd.

6 Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Cynhwyswyd adborth yn yr adroddiadau i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Gweithredol (y mae ei gofnodion ar gael ar wefan CBSW). Cafodd y penderfyniad a'r ymatebion lawer o sylw yn y cyfryngau lleol. Rydym yn cydnabod y bydd angen gwneud rhywfaint o waith mewn perthynas â'r newidiadau i Gludiant Ôl-16. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu â sefydliadau addysgol perthnasol (gan gynnwys cyfarfodydd â'r rheiny a effeithir fwyaf) yn ogystal â chyfarfodydd â gweithredwyr bysiau i drefnu cludiant yn lle hynny y byddid wedi'i drefnu gan y Cyngor yn flaenorol.

7 Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Roedd yr ymarfer ymgynghori yn amlygu'r pryderon o rai rhannau o'r gymuned ynghyd â'r teimladau cryf ynghylch rhai o'r cynigion gwreiddiol. Gan fod rhywfaint o wahaniaeth barn ymhlith rhanddeiliaid o ran y ffordd ymlaen, ac y codwyd materion mewn perthynas â rhai agweddau ar yr opsiwn a ffafriwyd gan y mwyafrif, roedd cyfiawnhad cryf i'r Bwrdd Gweithredol ddewis yr opsiwn a ddewiswyd ganddo, hyd yn oed os nad hwnnw oedd yr un a ffafriwyd.

O'n safbwynt ni, roedd yr ymarfer yn amlygu pa mor ddymunol yw cael ymgynghori a chyfathrebu'n rheolaidd â rhanddeiliaid wrth symud ymlaen, yn

nhermau cynigion i'r dyfodol a hefyd o ran materion arferol.

http://www.wrexham.gov.uk/english/consultation/student_transport/index.htm

Enw'r ymgynghoriad:	Pencampwyr Cymunedol
Dyddiad yr ymgynghoriadau:	Cyfarfodydd Misol
1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?	
Mae'r grŵp yn bodoli i drafod ac adrodd yn ôl ar faterion o ran tensiynau yn y gymuned a throseddau casineb.	
2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?	
Mae hwn yn ddarn parhaus o waith, ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol.	
3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)	
Pan hysbysir y Tîm Amrywiaeth Cymunedol ynghylch tensiwn neu drosedd casineb, gelwir cyfarfod ag adrannau priodol fel tai a gwarchod y cyhoedd, ynghyd ag unrhyw sefydliadau sy'n bartneriaid, fel Heddlu Gogledd Cymru a Chymorth i Ddiodefwyr.	
4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?	
Ceir manylion gan yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid o ran y broblem a'i hachos posibl.	
5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)	
Datblygir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phob mater sy'n codi, fesul achos.	
6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddu'rwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?	
Mae partneriaid yn adrodd yn ôl i'r unigolyn sy'n galw'r cyfarfod, sydd yna'n adrodd yn ôl i holl aelodau'r grŵp.	
7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)	
Mae'r Grŵp yn teimlo eu bod yn y sefyllfa orau i ganfod tensiynau cymunedol o fewn eu cymunedau eu hunain ac yn teimlo bod yr ymagwedd amlasiantaethol hon yn gweithio'n dda.	

Enw'r ymgynghoriad:	Pencampwyr Cymunedol
Dyddiad yr ymgynghoriadau:	Cyfarfodydd Misol
<p>1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?</p> <p>Mae'r grŵp yn bodoli i drafod ac adrodd yn ôl ar faterion o ran tensiynau yn y gymuned a throsteddau casineb.</p>	
<p>2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?</p> <p>Mae hwn yn ddarn parhaus o waith, ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol.</p>	
<p>3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)</p> <p>Pan hysbysir y Tîm Amrywiaeth Cymunedol ynghylch tensiwn neu drosedd casineb, gelwir cyfarfod ag adrannau priodol fel tai a gwarchod y cyhoedd, ynghyd ag unrhyw sefydliadau sy'n bartneriaid, fel Heddlu Gogledd Cymru a Chymorth i Ddiodefwyr.</p>	
<p>4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?</p> <p>Ceir manylion gan yr holl sefydliadau sy'n bartneriaid o ran y broblem a'i hachos posibl.</p>	
<p>5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)</p> <p>Datblygir cynllun gweithredu i fynd i'r afael â phob mater sy'n codi, fesul achos.</p>	
<p>6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?</p> <p>Mae partneriaid yn adrodd yn ôl i'r unigolyn sy'n galw'r cyfarfod, sydd yna'n adrodd yn ôl i holl aelodau'r grŵp.</p>	
<p>7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)</p> <p>Mae'r Grŵp yn teimlo eu bod yn y sefyllfa orau i ganfod tensiynau cymunedol o fewn eu cymunedau eu hunain ac yn teimlo bod yr ymagwedd amlasiantaethol hon yn gweithio'n dda.</p>	

Enw'r ymgynghoriad:	Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau
Dyddiad yr ymgynghoriadau:	Cyfarfodydd Misol
<p>1. Beth oedd prwpas eich ymarfer ymgynghori?</p> <p>Fel Cyngor, mae gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn gwrando ar farnau'r grwpiau a ddosberthir fel rhai â 'nodweddion gwarchodedig' ac yn eu gwarchod (fe'u gelwir weithiau'n 'grwpiau cydraddoldeb' neu'n grwpiau 'nas clywir yn aml'). Mae'r grŵp ail-lunio gwasanaethau yn cynnwys preswylwyr lleol sy'n cynrychioli bob un o'r nodweddion gwarchodedig gan gynnwys gofalwyr, y rheiny sy'n byw mewn tldi a siaradwyr Cymraeg. Ffurfiwyd y grŵp i ddarparu cyfle ychwanegol i swyddogion y Cyngor ystyried a thrafod eu syniadau a'u cynlluniau yn nhermau eu heffeithiau posibl ar y gymuned.</p>	
<p>2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?</p> <p>Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod unwaith y mis.</p>	
<p>3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)</p> <p>Preswylwyr lleol a chynrychiolwyr o bob un o'r nodweddion gwarchodedig gan gynnwys Gofalwyr, Tldi a'r laith Gymraeg.</p>	
<p>4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?</p> <p>Bu modd i swyddogion y Cyngor ystyried effeithiau posibl ar y gymuned a all ddigwydd o ganlyniad i'w cynigion, eu syniadau a datblygiadau gwasanaeth i'r dyfodol.</p>	
<p>5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)</p> <p>Ceir amryw enghreifftiau o gynigion yn cael eu newid i adlewyrchu'r adborth a ddarparwyd, gan gynnwys cynnig cyfle i gael grant ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig ar gyfer darpariaeth gerdd beripatetig.</p>	
<p>6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?</p> <p>Yn ystod 2014/15, cyfarfu'r grŵp ar ddeuddeg achlysur a thrafododd effeithiau 20 o newidiadau gwasanaeth arfaethedig. Darperir adborth o gyfarfodydd blaenorol fel eitem reolaidd ar yr agenda.</p>	
<p>7. Sylwadau Gwerthuso (gennych chi a chyfranogwyr)</p> <p><u>Beth aeth yn dda?</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae swyddogion wedi cael budd o fynychu'r grŵp ac mae'r barnau a fynegwyd wedi llywio eu cynlluniau • Mae gan aelodau o'r Grŵp Ail-lunio Gwasanaethau well dealltwriaeth o beth y 	

mae'r Cyngor yn ei wneud ynghyd â'i brosesau

- Mae aelodau'r grŵp yn teimlo'n gadarnhaol bod y Cyngor yn cydnabod amrywiaeth a bod gan bobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig lais
- Mae aelodau'r grŵp wedi 'byw trwy' faterion eu hunain ac yn teimlo bod ganddynt lawer i'w gyfrannu
- Mae mynychu'r grŵp wedi agor meddyliau swyddogion ac wedi eu helpu i feddwl yn wahanol
- Gall Penaethiaid Adrannau a Chynghorwyr, yn uniongyrchol, wrando ar farnau a phrofiadau'r bobl a effeithir yn uniongyrchol gan eu gwaith
- Gall y grŵp helpu'r Cyngor i ystyried camau lliniarol posibl a all leihau effaith negyddol unrhyw newidiadau arfaethedig.

Meysydd i'w Gwella

- Teimlwyd bod angen gwneud mwy i sicrhau y cyflwynir cynigion i'r grŵp yn fuan, yn ystod eu llunio – pryd y ceir y cyfle gorau i ddylanwadu arnynt.
- Mae angen ymagwedd fwy cyson tuag at yr adborth a ddarperir i'r grŵp o ran yr hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r rhan a chwaraeir ganddynt.

Enw'r ymgynghoriad:	Llysgenhadon Ifanc
Dyddiad yr ymgynghori:	Yn barhaus drwy'r Rhaglen Pobl Ifanc Egniöl
1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?	
Gwrando ar farnau disgyblion mewn perthynas â chwaraeon a chymryd rhan mewn chwaraeon.	
2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?	
Mae'r Hyfforddwr a'r Cydlynnydd Gwirfoddolwyr yn cyfarfod yn rheolaidd, o leiaf bob mis, gyda Llysgenhadon Aur etholedig, mewn fforwm i drafod materion presennol a phrosiectau i'r dyfodol.	
3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)	
<ul style="list-style-type: none">• Trwy bob ysgol ar draws Wrecsam, mae llwybr arweinyddiaeth yn ei le gyda disgyblion yn cael eu dethol fel Llysgenhadon ifanc, yn amrywio o Efydd (Blwyddyn 6); Arian (Blwyddyn 9); Aur (Blwyddyn 10/11); a Phlatinwm (Blwyddyn 11/12).	
4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?	
<ul style="list-style-type: none">• Rydym yn canfod barnau pobl ifanc ar ba chwaraeon yr hoffent gymryd rhan ynddynt a hefyd sut y byddai'n well ganddynt i sesiynau gael eu cyflenwi• Rydym yn canfod gan bobl ifanc pa faterion a all fod yn ffactor o ran nad yw rhai pobl ifanc eisiau cymryd rhan mewn sesiynau, ynghyd â mynychu cyfleusterau hamdden neu grwpiau cymunedol	

<ul style="list-style-type: none"> Gofynnwn hefyd pa ddigwyddiadau yr hoffent chwarae rhan ynddynt, ac rydym yn annog y Llysgenhadon Ifanc i'n helpu i redeg y digwyddiadau hyn.
<p>5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)</p> <ul style="list-style-type: none"> I redeg digwyddiadau penodol O fewn rhaglenni cynllunio ar draws yr ysgolion ac o fewn y gymuned Ar gyfer dyrannu cyllid grant
<p>6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?</p> <ul style="list-style-type: none"> Mewn canlyniadau dogfennau cynllunio Cyfranogiad mewn cynadleddau ar gyfer Llysgenhadon Ifanc Cyfranogiad yn yr arolwg Chwaraeon Ysgol Cenedlaethol Cyfranogiad yn yr arolwg Llysgenhadon Ifanc Cenedlaethol Cyfranogiad mewn Cynghorau Ysgol
<p>7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)</p> <p>Cawsom fod llais y disgybl yn hanfodol i'n rhaglenni gwaith ac o ran dylanwadu ar y modd y mae'r gwaith a gyflenwir gennym yn cael ei raglennu. Mae'n rhoi cyfle i ddisgyblion leisio eu barn a chyfranogi mewn dylanwadu ar ddatblygu chwaraeon o fewn eu hardal ar gyfer pob unigolyn ifanc fel ei gilydd.</p>

Enw'r ymgynghoriad:	Perfformiad o ran Atgyweirio a Gwella'r Gwasanaeth Atgyweirio
Dyddiad yr ymgynghoriadau:	2014/2015
<p>1. Beth oedd pwrpas eich ymarfer ymgynghori?</p> <p>Ymgynghorir â thenantiaid y cyngor yn ystod y flwyddyn i fonitro perfformiad ac i edrych ar welliannau i'r gwasanaeth.</p>	
<p>2. Sut wnaethoch chi gasglu'r wybodaeth?</p> <p>Ymgwymerir ag arolwg ffôn ar gyfer sampl 10% o denantiaid sydd wedi cael gwaith atgyweirio. Ymhlith y cwestiynau a ofynnir y mae: pa mor fodlon y mae pobl â'r modd y gwnaed y gwaith atgyweirio a ph'un a chafodd ei gwblhau yn ystod eu hymweliad cyntaf.</p> <p>Cynhelir arolygon ffôn â phob tenant newydd gan ofyn cwestiynau mewn perthynas â chyflwr yr eiddo a lefel y gwasanaeth a ddarperir gan swyddfa'r ystâd.</p> <p>Yn ogystal, cynhaliwyd holiadur bach (y rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo gennym drwy'r cyfryngau cymdeithasol, Swyddfeydd Ystadau lleol a</p>	

chynlluniau tai gwarchod) ynghylch cynigion i newid yr amseroedd apwyntiad sydd ar gael ar gyfer gwneud gwaith atgyweirio.

Mae'r Grŵp Gwella'r Gwasanaeth Atgyweirio ac Unedau Gwag (h.y. eiddo gwag) yn cyfarfod yn fisol, sy'n cynnwys tenantiaid yn edrych ar arferion presennol a dulliau o ran gwella'r modd y cyflenwir y gwasanaeth. Yn ddiweddar, bu'r grŵp yn edrych ar:

- Becyn newydd i denantiaid a ddarperir i bob tenant newydd o fewn y Cyngor – gofynnwyd i'r grŵp am farnau ar ei gynnwys a beth y byddai tenantiaid newydd yn ei gael yn ddefnyddiol
- Bu'r grŵp yn ymweld ag eiddo gwag i edrych ar gyflwr yr eiddo a'r gwaith a wnaed
- Bu'r Tîm Gwaith Trwsio Ymatebol yn edrych ar weithio gyda chydweithwyr eraill yn y Cyngor ers Rhagfyr 2014, i ganfod dulliau mwy effeithlon a gwell o weithio. Bu'r prosiect hwn yn edrych ar wella'r gwasanaethau presennol a ddarperir gan y Tîm Gwaith Trwsio Ymatebol i denantiaid, ac roedd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar Wasanaethau Cwsmer presennol. Rhannwyd y cynnydd a wnaed gyda'r tenantiaid ar y Grŵp Gwella Gwasanaeth. Gofynnwyd i'r grŵp am eu barnau ar ba wasanaeth y dylid i gynnig i denantiaid yn y dyfodol, pa lefel o fodlonrwydd y dylid ei gyflenwi o ran y gwasanaeth atgyweirio a beth a ddisgwylir gan denantiaid.

3. Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? (gan gynnwys niferoedd y bobl)

- Sampl 10% o denantiaid sydd wedi cael gwaith atgyweirio
- Tenantiaid newydd (tua 800 o denantiaid newydd y flwyddyn)
- Y Grŵp Gwella Gwasanaeth (8 i 10 o denantiaid)

4. Beth wnaethoch chi ei ganfod?

Adroddir ynghylch perfformiad y gwasanaeth atgyweirio yn yr adroddiad Perfformiad Cyffredinol a adroddir i Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam sy'n cyfarfod bob dau fis.

Yn ogystal, mae'r Grŵp Gwella Gwasanaeth wedi adrodd i'r Bartneriaeth ynghylch ei ganfyddiadau o ran gwelliannau i'r gwasanaeth.

5. Sut y defnyddiwyd y wybodaeth? (e.e. a oes unrhyw beth wedi newid o ganlyniad?)

Defnyddir gwybodaeth i newid a gwella'r modd y cyflenwir y gwasanaeth atgyweirio. Fel rhan o'r adolygiad parhaus, rheolir gwelliannau arfaethedig drwy Gynllun Gweithredu parhaus.

6. Sut wnaethoch chi adrodd yn ôl a rhoi cyhoeddusrwydd i'r canfyddiadau, a sut wnaethoch chi eu defnyddio?

Adroddir ynghylch gwybodaeth am berfformiad i denantiaid drwy Trafodion Tai ac i denantiaid sy'n aelodau o Bartneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wreccsam.

7. Sylwadau Gwerthuso (gennyh chi a chyfranogwyr)

Bydd adborth o'r ymgynghoriadau'n cynorthwyo Swyddogion i wella'r modd y cyflenwir gwasanaethau'n barhaus.

www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/housing/newsletter/newsletter_winter14.pdf